**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

18 Medi 2020

## 1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”) yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy’n cyrraedd Cymru o’r tu allan i’r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy’n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – ac ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy’n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn gweithredu newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel y bo’n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

*Dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau wedi dod i rym llai na 21 diwrnod ar ôl gosod yr offeryn yn y Senedd.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae’r Llywodraeth o’r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr ynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r mannau hynny – yn fwyaf diweddar ar 12 Medi 2020.

Mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws yn Guadeloupe a Slofenia wedi codi. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cyflwyno gofynion ynysu yn awr ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o'r gwledydd hynny.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu Gwlad Thai a Gibraltar at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae hyn ar sail bod y data sydd wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd a berir gan bobl sy'n dychwelyd o'r gwledydd a'r tiriogaethau hynny bellach wedi gostwng, ac felly dylai'r bobl hynny fod yn esempt rhag y gofynion ynysu.

Bydd y gofynion diwygiedig hyn yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin o'r gwledydd neu'r tiriogaethau hyn am 4:00am ar 19 Medi 2020 neu wedi hynny. Ni fydd yr un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## 5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.